Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

01/02

Y Swyddfa Breifat
08 JUL 2016
PO 078
Private Office

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Elin Jones
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
[redacted]

07/07/16

Annwyl Lywydd

**Y Bil Cymru drafft a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

Yn ystod digwyddiad a gynhaliwyd neithiwr gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ar gryfhau hawliau i'r Gymraeg, tynnwyd sylw at effaith un o ddarpariaethau'r Bil Cymru drafft ar y gallu i weithredu'n llawn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mi ofynnoch i mi ddarparu nodyn ar y mater. Hyderaf y bydd y nodyn hwn yn caniatáu i chi roi ystyriaeth lawn i'r mater ac i weithredu arno fel y gwelwch yn briodol.

Mae Adran 43 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhwystro'r Cynulliad rhag gwneud Safonau'r Gymraeg yn benodol gymwys i Weinidogion y Goron mewn rheoliadau, oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cydsynio i hynny. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Mesur hwnnw sy'n gosod cyfyngiad o'r fath ar bŵer y Cynulliad i wneud Safonau'r Gymraeg yn benodol gymwys i 'adrannau'r Llywodraeth' ac 'awdurdodau sydd heb eu datganoli'. Rwyf wedi cynnal Ymchwiliadau Safonau yn unol ag Adran 61 y Mesur i rhai 'adrannau'r Llywodraeth' ac 'awdurdodau sydd heb eu datganoli'. Yn sgil hynny mae rhai 'awdurdodau sydd heb eu datganoli' eisoes wedi eu henwi mewn rheoliadau a basiwyd gan y Cynulliad dan Adran 39 y Mesur ac arhosaf i'r Cynulliad basio rheoliadau ar gyfer gwneud Safonau'n benodol gymwys i rhai 'adrannau'r Llywodraeth'.

Mae Adran 8, Atodlen 2 y Bil Cymru drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad dderbyn cydsyniad y Gweinidog perthnasol o Lywodraeth y DU i osod swyddogaeth ar Weinidog y Goron, adran o'r Llywodraeth neu awdurdod sydd heb ei ddatganoli, neu i newid neu ddileu swyddogaethau'r personau hynny. Yn unol â hynny, pe bai'r Cynulliad yn disodli Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gyda Deddf newydd ar gyfer y Gymraeg, yna mi fyddai angen cydsyniad y Gweinidog perthnasol o Lywodraeth y DU i ddarparu yn y Ddeddf honno ar gyfer gwneud dyletswyddau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn gymwys i'r holl ystod hynny o bersonau. Byddai hynny'n cyfyngu'n sylweddol ar ryddid presennol y Cynulliad i wneud dyletswyddau yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yn gymwys i 'adrannau'r Llywodraeth' ac i 'awdurdodau heb eu datganoli'.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
[redacted]
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
[redacted]
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Un o amcanion y gyfundrefn Safonau sy'n ganolog i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yw yw sicrhau gwell cysondeb mewn gwasanaethau Cymraeg ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Heb y gallu i sicrhau trwy ddeddfwriaeth bod 'adrannau'r Llywodraeth' ac 'awdurdodau sydd heb eu datganoli' yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg, rwy'n ansicr i ba raddau y gellid cyflawni'r amcan hwnnw. Mae rhai 'adrannau'r Llywodraeth' ac 'awdurdodau sydd heb eu datganoli' yn darparu gwasanaethau y mae'n ofynnol i bawb i'w defnyddio a gwasanaethau sy'n hollbwysig i les unigolion. Mae'n hanfodol bod gwasanaethau o'r fath ar gael yn Gymraeg i bobl Cymru. Ofnaf y byddai pasio'r Bil Cymru drafft fel mae'n sefyll yn golygu bod llai o'r gwasanaethau angenrheidiol hynny ar gael yn Gymraeg yn y dyfodol ac y byddai hynny'n effeithio'n andwyol ar o leiaf rhai siaradwyr Cymraeg.

Hyd yn oed heb i'r Cynulliad ddisodli Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gyda Deddf newydd ar gyfer y Gymraeg, mae'n bosib y byddai pasio'r Bil Cymru drafft fel mae'n sefyll yn arwain rhai 'adrannau'r Llywodraeth' ac 'awdurdodau heb eu datganoli' i gwestiynu pŵer y Cynulliad i wneud Safonau'n benodol gymwys iddynt mewn rheoliadau dan Adran 39 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, heb i Weinidog perthnasol Llywodraeth y DU gydsynio i hynny.

Un ffordd o fynd i'r afael â'r broblem honno o bosib fyddai eithrio'r Gymraeg o ddarpariaethau Adran 8, Atodlen 2 y Bil Cymru drafft, ar y sail bod yr Adran honno yn cyfyngu ar bwerau presennol y Cynulliad yng nghyd destun y Gymraeg.

Hyderaf y byddwch yn rhannu fy mhryder ynghylch y mater pwysig hwn ac y byddwch yn codi'r mater fel rhan o'ch trafodaethau ar y Bil Cymru drafft. Croeso i chi gysylltu pe hoffet drafod y mater ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg